## 3.a. Senarios chwarae rôl

**Fe wnaeth Ricky feddwl!**
Ail-berfformiwch olygfeydd o'r DVD lle mae Ricky wedi gorfod gwneud dewis - OND - y tro hwn mae Ricky yn dewis 'meddwl' cyn gwneud dim ac mae'n ymddwyn mewn ffordd briodol a chadarnhaol. Gorffennwch drwy ddangos Ricky yn cael ei wobrwyo am ei ymddygiad da e.e. diwrnod allan hapus gyda'i chwaer fach yn y parc, cael gêm newydd ar gyfer ei Nintendo DS, cael tystysgrif gan yr ysgol am ymddygiad da.

**Mam a Dawn yn cyfarfod**
Mae Lucy a'i mam yn dod oddi ar y bws ac yn taro i mewn i Dawn y tu allan i dŷ ei thad. Mae Dawn yn dweud ei bod yn falch ei bod wedi cyfarfod mam Ricky gan fod ganddi lawer o bethau y mae am eu dweud. Beth sy'n digwydd nesaf?

**Gorfod aros gartref**
Mae Ricky wedi cael llond bol! Mae ei fam wedi ei orfodi i aros gartref oherwydd y llythyr rhybudd ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae ei ffrindiau ysgol yn galw heibio i ofyn iddo fynd i'r clwb ieuenctid. Beth sy'n digwydd nesaf?

**Y botel wedi torri**
Dychmygwch fod Ricky yn gallu mynd yn ôl mewn amser i'r adeg pan oedd allan yn y parc gyda'i ffrind. Mae ei ffrind yn ceisio ei annog i daflu potel wydr. Beth ddylai Ricky ei wneud nesaf?

**Y ffrae fawr!**
Mae Ricky a'i ffrind yn cicio pêl yn y lôn. Maent yn defnyddio wal i gicio'r bêl yn ei herbyn. Ymhen ychydig funudau daw hen ddyn rownd y gornel a dechrau dweud wrthynt am fynd i ffwrdd, ei fod wedi cael digon a'i fod am alw'r heddlu. Beth ydych chi'n meddwl sy'n digwydd nesaf?